**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD ACHUB A TÂN GOGLEDD CYMRU

**18 Rhagfyr 2006**

**CYLLIDEB DDRAFFT 2007/2008**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

## DIBEN YR ADRODDIAD

**1.** Cyflwyno'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/2008 i Aelodau i'w chymeradwyo.

## CYFLWYNIAD

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod o ran y gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/2008, y rhagolygon ar gyfer 2008/2009 a 2009/2010, ac mae'r papurau sydd ynghlwm yn amlinellu'r:-

(i) gyllideb refeniw ddrafft (Atodiad A),
(ii) y cyfraniadau dros dro sy'n ofynnol gan yr Awdurdodau sy'n aelodau (Atodiad B),
(iii) rhestr o ddangosyddion darbodus fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C),
(iv) Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2006/2007 (Atodiad D) a'r
(v) rhaglen gyfalaf ddrafft (Atodiad E).

## CEFNDIR

**3.** Fel yr adroddwyd gan y Panel Gweithredol ar 12 Rhagfyr 2006 bydd Aelodau'n ymwybodol o'r gwahanol bwysau a chyfyngiadau ar y gwasanaeth a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Mae'n bwysig tynnu sylw Aelodau at nifer o bwyntiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/2008.

(a) Y cynnydd ar gyfartaledd yn y Grant Cynnal Refeniw dros dro yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2007/2008 yw 3.85%. Ni chyhoeddir y Setliad Terfynol tan 14 Rhagfyr 2006.

(b) Ar hyn o bryd ni wyddom y dyfarniad tân a roddir i Ymladdwyr Tân ar 1 Gorffennaf 2007. I bwrpas pennu'r gyllideb defnyddiwyd 2.5% gan mai dyma'r uchafswm a nodir ar gyfer tâl sector cyhoeddus. I bob 1% yn uwch na 2.5%, y gost i'r Awdurdod Tân yw £154,000.

(c) O Ebrill 2007 bydd y trefniadau cyfrifyddu newydd ar gyfer pensiynau Ymladdwyr Tân yn golygu y bydd angen sefydlu Cyfrif Pensiynau. Bydd pensiynau Ymladdwyr Tân a thaliadau cymudo'n cael eu talu o'r Cyfrif Pensiynau Newydd. Bydd yr Awdurdod yn gwneud cyfraniad sefydlog i'r Cyfrif Pensiynau o'r gyllideb refeniw i bob aelod o'r cynllun (21.3% FPS 1992, 11% FPS 2006). Bydd unrhyw ddiffyg yn y Cyfrif Pensiynau yn cael ei gwrdd gan y Llywodraeth a bydd unrhyw arian dros ben yn y cyfrif yn mynd yn ôl i'r Llywodraeth. Ond bydd yr Awdurdod yn dal yn gyfrifol am dalu Pensiynau Anafiadau, Pensiynau Salwch wrth gefn a chyfraniad sefydlog i'r Gronfa Bensiwn am bob Ymladdwr Tân sy'n ymddeol ar sail salwch. Y gyllideb a gedwir gan y gwasanaeth i dalu am y taliadau posibl hyn yw £350,000.

(d) Cynigir cadw darpariaeth fechan o £665,000 ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn posibl fydd yn cynnwys cyfraniadau pensiwn salwch, taliadau cymudo 2006/2007 a chostau pensiwn wrth gefn. Mae adroddiad ar wahân yn y rhaglen sy'n manylu ymhellach ar hyn.

**CEFNDIR** *(parhad)*

(e) Pan ystyriwyd y gyllideb ar gyfer 2006/2007, cytunodd Aelodau ar nifer o opsiynau i leihau'r cynnydd arfaethedig i lefel oedd yn fwy fforddiadwy i'r Awdurdodau sy'n aelodau. Roedd yr opsiynau'n cynnwys defnyddio Darpariaethau o £412,200 gan yr Awdurdod. Mae'r darpariaethau sydd gan yr Awdurdod erbyn hyn wedi lleihau, felly nid yw'n bosibl ailadrodd hyn yn 2007/08. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 1.4% yn y gyllideb arfaethedig o'i gymharu â 2006/2007.

**CYLLIDEB REFENIW**

**4.** Cyfrifwyd bod y gyllideb ddrafft gychwynnol ar gyfer 2006/2007 yn £29.456m, sydd 0.36% yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2006/2007. Y cynnydd sylfaenol ar ôl gwneud addasiadau am y ffordd y cyfrifir y pensiynau o 01/04/07 yw 4.85%. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys amcangyfrif ar gyfer dyfarniadau tâl i ymladdwyr tân a staff sifil ar sail 2.5%. Mae'r gost o ariannu'r rhaglen gyfalaf (Taliadau Dyledion) yn dangos bod cynnydd mawr oherwydd y cynnydd mewn gwariant ar gyfalaf er mwyn cwrdd â'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Lleihau Risg.

**5.** Mae Atodiad A yn cymharu'r gyllideb gychwynnol ar gyfer 2007/2008 i'r gwariant gwirioneddol ar gyfer 2005/2006, y cyllidebau gwreiddiol a'r ffigyrau terfynol ar gyfer 2006/2007 a'r rhagolygon ar gyfer 2008/2009 a 2009/2010.

**6.** Paratoir y gyllideb ar sail rhagamcanion presennol o ran digwyddiadau a gofynion ar y gwasanaeth. Ond bydd Aelodau'n gwerthfawrogi y gallai cynnydd yn nifer y digwyddiadau, fel cynnydd sydyn mewn marwolaethau oherwydd tân, gael effaith niweidiol ar wariant. Nid yw'r gyllideb yn cynnwys unrhyw fesurau wrth gefn i gynnwys hyn.

## CYLLIDEB REFENIW *(parhad)*

**7.** Wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2007/2008 mae'r gwasanaeth wedi bod yn ddarbodus ac nid yw wedi cynnwys unrhyw wariant newydd heblaw am y costau ychwanegol am y system reoli Tri-Gwasanaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymell bod yr holl Awdurdodau drwy Gymru'n sicrhau 1% o arbedion effeithlonrwydd. Tra bod hyn yn hysbys ac yn ffactor wrth baratoi'r gyllideb, bydd yn rhaid iddi fod yn nodwedd allweddol wrth gynllunio'n ariannol yn y dyfodol. Gellid defnyddio arbedion yn sgil effeithlonrwydd i gael adnoddau ychwanegol i ddelio â gofynion ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

**8.** Mae Atodiad B yn amlinellu'r cyfraniadau dros dro ar gyfer 2007/2008, tra bod Atodiad C yn amlinellu'r dangosyddion darbodus angenrheidiol o God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys. Mae Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2007/2008 yn Atodiad D.

## RHAGLEN GYFALAF

**9.** Mae'r rhaglen gyfalaf drafft ar gyfer 2007/2008 wedi'i hamlinellu yn Atodiad E sy'n swm o £5.58m. Yn y rhaglen mae arian wedi'i gynnwys ar gyfer prosiect Rhyl $1^{af}$ - mae adroddiad ar wahân ar hyn i Aelodau. Yn 2006/2007 yr amcangyfrif o'r ffigurau terfynol ar gyfer gwariant cyfalaf yw £4.18m. Bwriedir ariannu hyn drwy fenthyca ac o grantiau.

**10.** Mae Rheoli Ystadau'n gyfrifol am ochr eiddo y rhaglen gyfalaf, ac oherwydd llawer o waith cyfalaf sydd angen ei wneud, ond heb ei wneud eto, mae costau gwaith wedi codi. Mae'r cynnydd hwn mewn costau'n deillio'n bennaf o'r ffaith na fu gwariant digonol yn y gorffennol. Nid yw'r rhaglen yn dadansoddi'r gwariant fesul eiddo, heblaw am y prosiect Rhyl $1^{af}$, a hynny oherwydd y nifer

**RHAGLEN GYFALAF** *(parhad)*

fawr o eiddo y mae angen gwneud gwaith arnynt. Rhoddir gwybodaeth am y rhaglen gyfalaf mewn adroddiad ar wahân i Aelodau yn ddiweddarach.

**ARGYMHELLION**

**11** Argymhellir bod:

(i) Aelodau'n cymeradwyo'r swm o £29.456m ar gyfer cyllideb ddrafft 2007/2008.
(ii) Hysbysu Awdurdodau sy'n aelodau o'r cyfraniadau dros dro sydd eu hangen ar gyfer 2007/2008.
(iii) Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a amlinellir yn Atodiad C.
(iv) Cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2007/2008 a amlinellir yn Atodiad D.
(v) Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2007/2008 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu.
(vi) Os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd cyn 31 Ionawr 2007, bod y pwerau i ddiwygio lefel y gyllideb yn cael ei ddirprwyo i'r Panel Gweithredol, neu os bydd unrhyw arbedion yn dod i ben ar ôl y dyddiad hwn ond cyn 15 Chwefror 2007, bod y pŵer yn cael ei ddirprwyo i'r Trysorlys mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.

**K W FINCH**
**Trysorydd**